**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Newid yn yr Hinsawdd

seneddNHAMG@senedd.cymru

17 Mawrth 2021

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mawrth lle gwnaethoch ddarparu adroddiad y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021. Mae'n bleser gennyf ddarparu fy ymateb ffurfiol i'r ddau argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailedrych ar y targedau allyriadau maes o law, yn arbennig, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu effaith pandemig Covid-19 yn llawn.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu nifer cyfyngedig o amgylchiadau lle gallwn ddiwygio targedau a chyllidebau carbon. Y rhain yw: (a) datblygiadau sylweddol mewn gwybodaeth wyddonol am newid yn yr hinsawdd, neu gyfraith neu bolisi rhyngwladol yr UE neu ryngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd; (b) yn dilyn argymhelliad gan y corff cynghori (y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd); neu (c) mewn cysylltiad â diwygiadau i'r diffiniad o allyriadau Cymru o awyrennau a llongau rhyngwladol, neu'r diffiniad o nwy tŷ gwydr. I bob pwrpas, felly, mae'r llwybr lleihau allyriadau bob amser yn cael ei adolygu gan y gallai fod angen i ni ymateb i amgylchiadau o'r fath. Yn fwy penodol, rydym yn annhebygol o gael darlun cyflawn o effaith pandemig Covid-19 ar allyriadau Cymru tan ganol 2023 ar y cynharaf. Mae'n ofynnol i ni bennu'r bedwaredd gyllideb garbon (2031-35) cyn diwedd 2025, a allai gynnig cyfle addas i ystyried y llwybr lleihau allyriadau yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Llywodraeth hon wedi sefydlu sylfaen gref yn ystod cyfnod cyntaf y gyllideb garbon, gan roi Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni'r gyllideb gyntaf a tharged 2020. Er bod targedau allyriadau'n bwysig, rhaid i'r Llywodraeth nesaf ganolbwyntio ar gyflawni os ydym am wneud y 2020au yn 'ddegawd bendant o weithredu ar yr hinsawdd', fel y mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi galw amdano.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ymgynghori ar yr Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel drafft, yn anad dim er mwyn sicrhau bod y Senedd a'i phwyllgorau yn cael cyfle i graffu ar y Cynllun cyn iddo gael ei gwblhau.**

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddor o lunio polisïau agored a thryloyw, gan weithio mewn partneriaeth â phobl a sefydliadau ledled Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er mwyn ein helpu i gyflawni'r dull Gweithredu Cymru gyfan y mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo iddo, rhaid i'r cynllun gael ei lywio gan dystiolaeth ac arbenigedd a dynnwyd o ystod eang o leisiau ar lu o bynciau. Bydd hyn yn helpu i adeiladu'r consensws cenedlaethol ar gyfer y camau gweithredu sy'n hanfodol i gyrraedd ein targedau uchelgeisiol, ac yn chwarae rhan yn y gwaith o ysgogi cymunedau tuag at gyflawni trosglwyddo teg i sero net.

Mae'r cynllun yn cyfuno polisïau, strategaethau a rhaglenni. Amlygodd y cynllun ymgysylltu a gyhoeddwyd gennym y llynedd i'r Senedd a'i phwyllgorau, a rhanddeiliaid ehangach, pryd oedd ymgynghoriadau perthnasol i fod i gael eu cyflwyno.[1] Yn ystod y deuddeg mis diwethaf yn unig rydym wedi ymgynghori'n ffurfiol ar strategaeth economi gylchol, dyfodol prisio carbon yn y DU, mynediad i fand eang cyflym iawn, cefnogi ffermwyr ar ôl Brexit, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, polisi glo, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, strategaeth drafnidiaeth, effeithlonrwydd ynni mewn rheoliadau adeiladu a strategaeth codi tâl am gerbydau trydan. Felly, mae'r Senedd eisoes yn gallu craffu ar elfennau'r cynllun ar gyfer eu potensial i leihau allyriadau wrth iddynt ddatblygu. Mae hyn yn lledaenu baich gwaith craffu dros gyfnod hwy ac yn galluogi ymgynghoriad cyfoethocach ar bob maes yn ei dro.

Mae'r cynllun ymgysylltu hefyd yn disgrifio digwyddiadau a gweithgareddau eraill, gan gynnwys Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd pan danysgrifiodd dros 2,000 o bobl i glywed 80 o siaradwyr. Yr ydym hefyd wedi rhoi cymorth i Gynulliad Dinasyddion cyntaf Cymru ar yr Hinsawdd, sydd bellach ar waith ym Mlaenau Gwent. Mae fy swyddogion yn edrych ar opsiynau ar gyfer ymgysylltu pellach yn ystod y misoedd nesaf i wella elfennau traws-sector y cynllun a byddwn yn diweddaru ein cynllun ymgysylltu maes o law.

Yn olaf, cytunodd y Senedd ar y gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r cynllun pan gymeradwyodd Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a rhaid i'r Senedd gydnabod na allwn rwymo gweithredoedd y llywodraeth nesaf. Fodd bynnag, cytunaf yn gryf â'r pwyllgor y bydd angen i unrhyw lywodraeth newydd weithio'n agos gyda holl bwyllgorau'r Senedd i sicrhau bod trafod cymaint â phosibl â’r cyhoedd wrth ddatblygu'r cynllun nesaf.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

---

1 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/engagement-approach-for-low-carbon-delivery-plan-2.pdf